



Arolygiaeth Prawf EF

Cynllun Iaith Gymraeg – Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2023/2024

Cyflwyniad

1. Paratowyd yr adroddiad hwn gan yr Arolygydd sy'n gyfrifol am ein Cynllun Iaith Gymraeg ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 01 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.
2. Mae Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuencid ledled Cymru a Lloegr. Gwnawn hyn trwy arolygiadau annibynnol, argymhellion, ymchwil a chanllawiau ymarfer effeithiol.
3. Yn ogystal â'n harolygiadau, rydym yn cyhoeddi adroddiadau thematig rheolaidd ar faterion allweddol yn y system cyfiawnder troseddol, yn cynnal adolygiadau annibynnol o droseddau pellach difrifol (SFO) ac yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol bob blwyddyn.
4. Mae ein hymchwil annibynnol yn cyfrannu'n fawr at ein gwaith ac yn darparu sylfaen dystiolaeth, yr ydym yn seilio ein safonau ar gyfer arolygiadau arni. Rydym hefyd yn comisiynu academyddion blaenllaw i roi eu barn ar ystod o bynciau cysylltiedig.
5. Rydym yn defnyddio ein llais i ysgogi newid systemau, gan ganolbwyntio ar gynhwysiant ac amrywiaeth. Mae ein gwaith craffu yn arwain at ganlyniadau gwell i unigolion a chymunedau.
6. Rydym yn derbyn cyllideb ddirprwyedig gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sef £7,159,000 ar gyfer y cyfnod 2023 i 2024.
7. Eleni fe wnaethom ddiwygio ein Cynllun Iaith Gymraeg, a chafodd ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 20 Chwefror 2024.
8. Mae Arolygiaeth Prawf EF, dan arweiniad y Prif Arolygydd, wedi ymrwymo i gyflawni'r cyfrifoldebau a nodir yn ein Cynllun Iaith Gymraeg. Fel yr amlinellwyd yn ein Cynllun, rydym wedi ymrwymo i sicrhau, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, y byddwn, wrth gynnal ein harolygiadau yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Recriwtio a staffio

9. Rydym yn parhau i gynyddu ein recriwtio o ran siaradwyr Cymraeg ac yn sicrhau bod geiriad ein hysbysebion swyddi yn nodi'n glir ein bod yn croesawu'n gynnes geisiadau gan ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg. Rydym hefyd yn parhau i wneud defnydd rheolaidd o'n perthnasoedd sefydledig â rhanddeiliaid yn y sector cyfiawnder yng Nghymru, i hybu ymwybyddiaeth o'n swyddi gwag.
10. Rydym yn darparu'r hysbyseb a'r swydd ddisgrifiad yn Gymraeg ac yn cynnig cyfle i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg drafod y swydd yn Gymraeg.
11. Yn y flwyddyn i ddod byddwn hefyd yn ehangu ein cynllun mentora a chysgodi i gynnwys siaradwyr Cymraeg. Trwy'r cynllun hwn bydd ein staff arolygu sy'n siarad Cymraeg yn cynnig cymorth un i un, arweiniad, a chysgodi i'r rhai sydd â diddordeb mewn ymuno â'r sefydliad a dysgu mwy amdano.
12. O ganlyniad i'n hymrwymiad parhaus i recriwtio siaradwyr Cymraeg, rydym

wedi recriwtio dau arolygydd sy'n siarad Cymraeg a ymunodd â'r Arolygiaeth yn 2023. Mae'r Arolygiaeth bellach yn cyflogi tri aelod o staff amser llawn sy'n siarad Cymraeg, sy'n cynrychioli cynnydd o'r un yn y flwyddyn adrodd flaenorol.

13. Yn ogystal, mae gennym un arolygydd sy'n siarad Cymraeg sy'n derbyn ffi, sydd wedi'i ddefnyddio ar gyfer arolygiadau a gynhaliwyd yng Nghymru yn 2023.
14. Yn ogystal â'n hymrwymiad i barhau i recriwtio aelodau staff sy'n siarad Cymraeg, rydym yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf a thimau cyfiawnder ieuencid yng Nghymru i hyfforddi rhai o'u staff sy'n siarad Cymraeg i ddod yn 'aseswyr lleol' a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni gweithgarwch arolygu yng Nghymru.

Cynllunio a darparu gwasanaethau

15. Mae Arolygiaeth Prawf EF yn cynllunio ac yn gweithredu'r arolygiadau yng Nghymru o wasanaethau prawf oedolion a chyfiawnder ieuencid, ac ar brydiau rydym yn gweithio ar y cyd ag arolygiaethau perthnasol eraill. Yng Nghymru, mae'r rhain yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS). Wrth gydweithio, rydym yn hyrwyddo ein cynllun iaith Gymraeg ac rydym yr un mor ymwybodol o gynlluniau arolygiaethau eraill.
16. Mae ein cynllun iaith Gymraeg yn nodi ein hymrwymiad y byddwn yn darparu o leiaf un Arolygydd sy'n siarad Cymraeg ar ein rhaglenni arolygu ieuencid ac oedolion craidd yng Nghymru. Cyflawnwyd hyn yn y flwyddyn adrodd hon.
17. Wrth baratoi ar gyfer yr arolygiadau craidd a thematig yng Nghymru, rydym wedi ymgysylltu â Chyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol Cymru a rheolwyr timau cyfiawnder ieuencid yng Nghymru i ofyn iddynt roi gwybod i ni ymlaen llaw a fyddai'n well gan unrhyw un o'r unigolion sy'n defnyddio eu gwasanaethau, staff neu asiantaethau partner perthnasol dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, a siarad yn Gymraeg. Mae'r ymgysylltu cynnar hwn yn ein galluogi i ddeall anghenion Cymraeg y gwasanaethau a rhoi cynlluniau ar waith i'w diwallu wrth gynnal ein harolygiadau a bydd yn parhau dros y flwyddyn adrodd sydd i ddod.
18. Gellir cyflwyno gwybodaeth y gofynnir amdani gan Arolygiaeth Prawf EF cyn arolygiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Yn ystod y cyfnod adrodd, cawsom gyflwyniadau gan y gwasanaethau cyfiawnder ieuencid a arolygwyd a oedd yn cynnwys dogfennau Cymraeg a chopïau dwyieithog o bolisiau perthnasol.

Arolygiadau a ddarparwyd yng Nghymru

19. Rydym wedi cwblhau'r arolygiadau canlynol o wasanaethau cyfiawnder ieuencid yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd, er nad yw'r holl adroddiadau arolygu hyn wedi'u cyhoeddi o fewn y cyfnod adrodd ar gyfer yr adroddiad blynyddol hwn:
 - Sir Gaerfyrddin
 - Gwynedd Ynys Môn
 - Conwy a Sir Ddinbych
 - Casnewydd
 - Sir y Fflint.

20. Ar gyfer pob un o'r arolygiadau hyn, darparwyd y llythyr cyhoeddi, y daflen wybodaeth i blant a'r ffurflen ganiatâd, a thaflen wybodaeth staff yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â'n hymrwymiad a nodir yn y Cynllun Iaith Gymraeg.
21. Ni chynhaliwyd unrhyw arolygiadau craidd o wasanaethau prawf yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd.
22. Rydym wedi cwblhau tri arolygiad thematig sydd wedi cynnwys ardaloedd yng Nghymru, a chyhoeddwyd dau ohonynt yn ystod y cyfnod adrodd hwn:
 - Ansawdd y gwaith a wneir gyda menywod.
 - Arolygiad thematig o waith a wnaed, a chynnydd a wnaed, gan y Gwasanaeth Prawf i leihau nifer yr achosion o gam-drin domestig ac amddiffyn dioddefwyr.
 - Rôl yr uwch swyddog prawf a goruchwyliaeth gan reolwyr yn y Gwasanaeth Prawf.
23. Ar gyfer yr arolygiadau a nodir uchod, bodlonwyd yr holl geisiadau am gyfweiliadau yn Gymraeg, sef cyfanswm o 17. Mae hyn yn gynydd nodedig o gymharu â'r cyfnod adrodd 2022-2023 lle nad oedd dim un, a 2021-2023 lle'r oedd saith.
24. Mae'r trafodaethau a gynhelir gyda staff yn ystod arolygiad hefyd yn hyrwyddo pwysigrwydd cydnabod bod gan y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuentid yr hawl i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Canfyddiadau arolygu mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg

25. Mae ein gwaith arolygu craidd yng Nghymru yn cynnwys ffocws ar ba mor dda y mae'r sefydliad a arolygwyd wedi nodi ac ymateb i geisiadau i gael mynediad at ei wasanaethau yn Gymraeg.
26. Canfu'r arolygiad o wasanaethau cyfiawnder ieuentid yn Sir Gaerfyrddin fod ymrwymiad i fodloni nodweddion gwarchoddedig y bobl ifanc. Roedd y ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg wedi'i hen sefydlu, gyda darpariaeth siarad, iaith a chyfathrebu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
27. Yng Ngwynedd ac Ynys Môn, canfuwyd hefyd fod y gwasanaeth cyfiawnder ieuentid yn gweithio gyda phlant yn eu dewis iaith, sef Cymraeg neu Saesneg, gyda mwyafrif y staff yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.

Delwedd gyhoeddus y sefydliad

28. Yn ystod y flwyddyn adrodd hon rydym wedi gweithio gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i adolygu a diweddarau ein cynllun iaith Gymraeg. Cymeradwywyd ein cynllun diwygiedig gan y Comisiynydd ar 20 Chwefror 2024.
29. Rydym yn parhau i ddefnyddio ein brandio Cymraeg ar gyfer pob adroddiad a chyfathrebiad yn Gymraeg.
30. Mae modd adnabod ein staff sy'n siarad Cymraeg yn glir trwy eu bathodynau enw a'u llinynnau gwddf dwyieithog.
31. Mae gennym dudalen we Gymraeg benodedig, sy'n cynnwys gwybodaeth am yr arolygiaeth, ein hadroddiadau, ymgynghoriadau, dogfennau corfforaethol, a chyfleoedd gyrfa yn Gymraeg.
32. Cyhoeddir adroddiadau ar ein harolygiadau a gynhelir yng Nghymru ochr yn ochr yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cyhoeddwyd adroddiadau a ysgrifennwyd yn y Gymraeg cyn gynted â phosibl ar ôl eu derbyn gan gyfieithwyr allanol. Mae'r adroddiadau cyhoeddus hyn hefyd yn cael eu hyrwyddo gyda theitl dwyieithog ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Cyfathrebu Ehangach


33. Mae Arolygiaeth Prawf EF wedi gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gaffael gwasanaethau cyfieithu newydd, sy'n fwy cyfarwydd i wasanaethau lleol. Mae'r gwasanaethau lleol hyn wedi cael eu defnyddio yn ystod y cyfnod adrodd hwn.
34. Cyfeirir ceisiadau am gyfweliadau cyfryngau yn Gymraeg at ein huwch reolwr sy'n siarad Cymraeg. Cafwyd un cais am ein gwaith, yn ystod y cyfnod adrodd.
35. Nid ydym wedi derbyn unrhyw alwadau na gohebiaeth i'n swyddfeydd ym Manceinion na Llundain trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.
36. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn rydym wedi cadw mewn cysylltiad ag Arolygiaethau partner, gan gynnwys cyswllt i hyrwyddo datblygiad trefniadau arolygu thematig ar y cyd yng Nghymru.
37. Mae ein dull rhagweithiol o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cynnwys cyswllt parhaus ag arweinwyr cyfiawnder troseddol yng Nghymru, a rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Chanolfan Troseddu a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru (WCCSJ). Rydym hefyd yn cael ein cynrychioli ar fforwm Rheolwyr Tîm Troseddau Ieuencid (TTI) Cymru, ac rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru ac wedi cyflwyno i 'Hwb Doeth' fel rhan o hwb adnoddau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.
38. Rydym yn parhau i nodi cyfleoedd i wella ein dealltwriaeth o'r trefniadau datganoledig ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant, fel y maent yn berthnasol i'n rôl o arolygu gwasanaethau prawf a chyfiawnder ieuencid.

Hyfforddiant a datblygiad staff

39. Eleni, mae staff Arolygiaeth Prawf EF wedi cael mewnbwn ar hanes ac arwyddocâd y Gymraeg, ein Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig, a'r ymrwymïadau y mae'n eu gosod ar gyfer ein holl staff wrth gynllunio a chynnal arolygiadau yng Nghymru.
40. Mae'r holl staff newydd yn parhau i gael, fel rhan o'u cyfnod sefydlu, drosolwg cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n ymgorffori ein cyfrifoldebau a'n hymrwymïadau o ran arolygu yng Nghymru.

Trefniadau yn y dyfodol

41. Hannah Williams, Arolygydd Prawf EF, fydd yn bennaf gyfrifol am ein Cynllun Iaith Gymraeg, ar ran Prif Arolygydd Prawf EF.



Hannah Williams

Arolygydd Prawf EF

Ar ran

Martin Jones

Prif Arolygydd Prawf EF